

# Dysgu ar gyfer gofalwyr yn y Brifysgol Agored

## Canllaw Dysgu

The Open University


CARERS CENTRE TOWER HAMLETS

# Cyflwyniad

Oeddech chi'n meddwl nad oedd gennych chi amser i astudio, neu gwblhau datblygiad personol/proffesiynol? Wel, dyma eich cyfle - beth bynnag fo'ch cefndir addysgol, gallwch ddechrau dysgu gyda chyrsiau OpenLearn y Brifysgol Agored, gan weithio ar gyflymder a fydd yn eich galluogi i gydbwyso gofalu ac astudio a heb unrhyw gost i chi'ch hun.

Mae cyrsiau OpenLearn yn amrywio o 2 awr i 24 awr o ran hyd, yn cael eu cyflwyno ar wahanol lefelau i weddu i'ch anghenion dysgu, fel talpiau byrion i'ch helpu i ffitio astudio'n hawdd mewn slotiau amser byr yn eich amserlen ddyddiol, heb ddyddiad dechrau na gorffen ac nid oes gan y rhan fwyaf o'r cyrsiau unrhyw ofyniad mynediad ffurfiol. Maen nhw hefyd yn gwbl hygyrch sy'n golygu, er enghraifft, bod fformatau eraill ar gael os oes gennych chi unrhyw fath o nam. Bydd y canllaw hwn yn mynd â chi drwy'r gwahanol gamau yn eich taith ddysgu. Mwynhewch a phob lwc!

Mae llawer i'w ennill wrth astudio. Er gwaethaf yr heriau sy'n eu hwynebu, mae gofalwyr wedi disgrifio sut mae astudio gyda'r Brifysgol Agored yn gwella eu llesiant. Manteision eraill astudio gyda'r Brifysgol Agored yw:





**Gadewch i ni ddechrau!**

# Cychwyn ar eich taith


Crëwch eich cyfrif OpenLearn am ddim trwy glicio ar y tab ar ochr dde uchaf gwe dudalen OpenLearn.

I greu cyfrif, bydd angen i chi gael cyfeiriad e-bost. Os nad oes gennych chi un, gallwch gofrestru i gyfrif am ddim gyda Google.

Bydd creu cyfrif yn eich galluogi i gael gafael ar ystod lawn o nodweddion sydd ddim ar gael i westeion.




O'ch proffil MyOpenLearn, byddwch yn gallu olrhain eich cynnydd a lawrlwytho cofnod gweithgaredd.




Rydych chi nawr yn barod i gychwyn ar eich taith ddysgu, sydd wedi'i nodi ar y dudalen nesaf. Os ydych chi'n defnyddio fersiwn bapur o'r canllaw hwn, ewch i'r fersiwn ar-lein yn https://www.open.edu/openlearn/health-sports-psychology/dysgu-ar-gyfer-gofalwyr.

# Dysgu yn y Brifysgol Agored

I ddechrau, ewch i wefan OpenLearn a mewngofnodi i'ch cyfrif.

OpenLearn

**Hoffech chi adnewyddu eich sgiliau astudio cyn i chi ddechrau cwrs OpenLearn?**

**Ie**

Edrychwch ar
**'Am I ready to be a distance learner?'**

**Ewch i'r cwrs**

**Na**

**Hoffech chi ddechrau gyda chwrs sy'n gysylltiedig â'ch rôl fel gofalwr?**

**Ie**

Mae yna nifer o gyrsiau am ddim sy'n canolbwyntio ar rôl gofalwyr gan gynnwys:

**Physical activity for health and wellbeing in the caring role**

**Gofalu am oedolion**

**Na**

**Ydych chi'n gwybod pa feysydd pwnc yr hoffech chi eu hastudio?**

**Ie**

Ewch i OpenLearn a defnyddiwch y swyddogaeth chwilio neu ewch i 'dewiswch bwnc' ar waelod y dudalen i archwilio'r wyth maes pwnc. Cofiwch gadw'ch tystysgrifau a'ch bathodynnau er mwyn i'ch astudiaeth gael ei chydnabod!

**OpenLearn**

**Na**

Peidiwch â phoeni! Gallwch bori yn ôl maes pwnc neu efallai edrych ar rai cyrsiau poblogaidd i'ch helpu i ddechrau. Cofiwch gadw'ch tystysgrifau a'ch bathodynnau er mwyn i'ch astudiaeth gael ei chydnabod!

**Pori yn ôl maes pwnc**

**Cyrsiau poblogaidd**

Angen rhagor o help? **Edrychwch ar y dudalen Cwestiynau Cyffredin**

Ar gyfer materion sy'n gysylltiedig ag OpenLearn, cysylltwch ag: openlearn@open.ac.uk


# Adborth gan ofalwyr

> Beth oedd yn wych i mi oedd, os nad oeddwn i'n mwynhau cwrs, roeddwn i'n gallu stopio a dechrau un arall... hyblyg dros ben!

> Roedd yn braf gwybod fy mod i'n dysgu gyda chyd-ofalwyr. Hyd yn oed os nad oedden ni'n siarad am ofalu, roeddwn i'n gwybod eu bod nhw'n fy neall i.

> Alla'i ddim credu pa mor dda roeddwn i'n teimlo ar ôl cwblhau fy nghwrs 2 awr cyntaf - gymaint yn fwy hyderus ac yn teimlo synnwyr enfawr o gyflawniad.

> Mae cymaint o gyrsiau am ddim ac mae'n wych eu bod nhw ar gyfer pob lefel a diddordeb. Roedd yn gweithio mor dda ochr yn ochr â fy rôl i fel gofalwr.



# Beth nesaf?

Nawr eich bod chi wedi profi dysgu o bell ac wedi ennill tystysgrifau a bathodynnau, efallai y bydd gennych chi ddiddordeb mewn parhau i astudio'n ffurfiol. Mae llwybrau posibl i gymwysterau'r Brifysgol Agored wedi'u hamlinellu isod. Siaradwch â'ch gwasanaethau gofalwyr lleol neu wasanaethau cyflogaeth os oes angen rhagor o gyngor a chymorth arnoch chi.

**Mae modiwl Mynediad yn lle gwych i ddechrau os ydych chi eisiau cyflwyniad rhwydd i astudio gyda'r Brifysgol Agored**


**modiwl Mynediad**

**Modiwl lefel 1 hyblyg sy'n eich galluogi i gyfrif astudiaeth flaenorol neu gyfredol – tuag at gymhwyster y Brifysgol Agored**

**Gwnewch i'ch dysgu gyfrif**

**Archwiliwch gymhwyster y Brifysgol Agored**

**Dysgwch ragor**










**Enillwch fathodynnau digidol, gwybodaeth, synnwyr o gyflawniad a hyder yn eich galluoedd** › **Cynyddwch 150 awr o astudio** › **Cymerwch eich modiwl Lefel 1 pwrpasol 'Gwneud i'ch dysgu gyfrif yn y gwaith'** → **Enillwch 30 credyd**

› **Cymerwch ragor o fodiwlau lefel 1 i 120 credyd** → **Tystysgrif mewn Addysg Uwch**

› **Cymerwch 120 credyd ar lefel 2** → **Diploma mewn Addysg Uwch**

› **Cymerwch 120 credyd ar lefel 3** → **Gradd israddedig BA/BSc**

Os ydych chi'n ystyried astudio ar gyfer un o gymwysterau'r Brifysgol Agored, dylai'r wybodaeth isod yn ddefnyddiol:

- Mae polisi mynediad agored y Brifysgol Agored yn golygu nad yw eich cyrhaeddiad addysgol blaenorol yn rhwystr i astudio.
- Mae'r ffordd y mae adnoddau a chyrsiau dysgu ar-lein y Brifysgol Agored wedi'u cynllunio yn cynnig y ffordd fwyaf hyblyg i chi astudio o amgylch eich ymrwymiadau gofalu.
- Mae'r Brifysgol Agored yn darparu cefnogaeth ardderchog i ofalwyr wrth gyrchu a llwyddo mewn addysg. Er enghraifft, mae yna system adnabod gofalwyr lle mae gofalwyr yn cael cynnig cymorth fel mater o drefn gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig; tudalen Canolfan Cymorth 'Cymorth i ofalwyr' sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd gan amlinellu'r holl gymorth sydd ar gael i fyfyrwyr y Brifysgol Agored sy'n ofalwyr er mwyn eu helpu i gael cydbwysedd rhwng gofalu ac astudio; fforymau gofalwyr pwrpasol; a chymorth cyflogadwyedd pwrpasol i ofalwyr.
- Mae cymorth ariannol ar gael drwy gynllun bwrsari gofalwyr y Brifysgol Agored (£250 i helpu gyda chostau sy'n gysylltiedig ag astudio); a'r Gronfa Ysgoloriaeth Gofalwyr arloesol sy'n darparu cyllid i hyd at 50 o ofalwyr bob blwyddyn ar gyfer cymhwyster llawn o'r Brifysgol Agored.

# Ynglŷn â'r canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynhyrchu ar y cyd gan y Brifysgol Agored a Chanolfan Gofalwyr Tower Hamlets. Hoffem ddiolch i'r rhai yn Academi Llesiant Canolfan Gofalwyr Tower Hamlets a gyfrannodd at ei ddatblygiad a'i dreialu. Mae'r Brifysgol Agored yn ymroi i Addysg agored a hygyrch i bawb. Un o brif amcanion yr Academi Llesiant Gofalwyr yw gwella llesiant gofalwyr di-dâl drwy addysg.

**The Open University**
**Walton Hall**
**MILTON KEYNES**
**MK7 6AA**
**https://www.open.ac.uk**

**Carers Centre**
**Tower Hamlets**
**21 Brayford Square**
**LONDON E1 0SG**
**https://ccth.org.uk**

**open.ac.uk**

The Open University is incorporated by Royal Charter (RC 000391), an exempt charity in England & Wales, and a charity registered in Scotland (SC 038302). The Open University is authorised and regulated by the Financial Conduct Authority in relation to its secondary activity of credit broking.

Copyright © 2023
The Open University.